**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod hybrid y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Llun, 6 Chwefror 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd K Johnson

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd J Turner

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd T Williams

**28 Datgan Buddiant**

**PENDERFYNWYD** – Yn unol â'r Cod Ymddygiad, dyma'r datganiadau o fuddiant personol a gafodd eu gwneud ynglŷn â'r agenda:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda, "Rydw i'n adnabod un o'r ymgeiswyr".

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda, "Rydw i wedi bod yn ymwneud â chwmni Trafnidiaeth Cymru".

**29 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 30 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022 yn rhai cywir.

## 31 Trafod Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 22.11.22 - 22.01.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 22 Tachwedd 2022 a 22 Ionawr 2023 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

## 32 Trafod cadarnhau’r cynnig isod yn benderfyniad:

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 33 Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr CDS ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais.

## 34 Crynodeb Gorfodi (Gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod: 22.11.22 - 22.01.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Tachwedd 2022 a 22 Ionawr 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

## 35 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 22.11.22 - 22.01.23

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio

adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 22 Tachwedd 2022 i 22 Ionawr 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.32pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**